



You matter | Ti'n cyfri



CANLLAW AR GYFRANOGIAD TENANTIAID

rhifyn 2017

Trosolwg ac Amcanion

Trosolwg | T3

Y 5 Her Bresennol Sy'n Effeithio ar CT | T4

Amcanion Y Ddogfen TPAS Cymru Hon | T4

Amodau ar Gyfer Cyfranogiad Tenantiaid (CT) Effeithiol | T6



Trosolwg

Erbyn hyn mae landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn gweithredu mewn amgylchedd newidiol a heriol. Mae cymunedau a ffyrdd o fyw unigol hefyd yn newid. Mae'r gefnogaeth a diddordeb i adfywio a chreu modelau newydd o ymgysylltu â thenantiaid a chymuned sy'n cyflenwi canlyniadau cadarnhaol go iawn yn parhau i fod yn gryf.

Nid yw landlordiaid Cymdeithasol bellach yn ddarparwyr cartrefi yn unig. Maent yn cysylltu fwyfwy â materion iechyd, lles, cynhwysiant cymdeithasol, ariannol a digidol ac adfywio cymunedol. Mae Cyfranogiad Tenantiaid wedi dod yn derm am set ehangach o weithgareddau sy'n lledaenu ar draws y gwasanaethau, ac sy'n cynnwys tenantiaid mewn materion cymunedol ehangach.

Bu Cyfranogiad Tenantiaid yn bodoli ers amser maith. Mae arferion a phrofiad blaenorol yn dal i lunio llawer o agweddau a lefel ymrwymiad i CT. Mewn cyfnod o newid, mae angen i staff landlordiaid a thenantiaid ddeall a dangos gwerth gwirioneddol CT trwy weithio gyda'i gilydd i adnabod atebion er mwyn gwella gwasanaethau, rheoli adnoddau ac adeiladu cymunedau gwell.

Pan gaiff ei wneud yn dda, gall CT effeithiol ddarparu ystod o fuddiannau ac ychwanegu gwerth at landlordiaid cymdeithasol, cymunedau ac unigolion. Efallai na fydd y manteision yn amlwg ar unwaith, ond gwelir esblygiad wrth i gyfathrebu effeithiol, cyfranogiad ac ymddiriedaeth ddatblygu. Gall Cyfranogiad Tenantiaid effeithiol ychwanegu gwerth at landlordiaid cymdeithasol, cymunedau ac unigolion.

Gall y manteision gynnwys:

- Gwell cyflenwi gwasanaeth a mwy o werth am arian.
- Adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chapasiti'r gymuned.
- Gwella atebolrwydd i denantiaid.
- Gwella cyrhaeddiad a/neu'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth - gwasanaeth mwy agored a chynhwysol.
- Arbedion effeithlonrwydd.
- Staff a thenantiaid yn dod yn fwy ymwybodol o safbwyntiau ei gilydd a chyfyngiadau sefydliadol ac ariannol.
- Cyfleoedd i denantiaid gynyddu eu hunanhyder a sgiliau i ddod yn 'barod am swydd'. Mae hefyd yn helpu pobl i ddechrau, neu barhau i ymgysylltu'n gymdeithasol.
- Lleihau ynysu cymdeithasol a gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau.
- Datblygu ffyrdd newydd o gyd-gynhyrchu gwasanaethau a strwythurau cefnogi cydfuddiannol.

Gall Cyfranogiad Tenantiaid effeithiol ychwanegu gwerth at landlordiaid cymdeithasol, cymunedau ac unigolion.

Nid yw Cyfranogiad Tenantiaid yn ddiben ynddo'i hun, ond yn hytrach yn fodd i wella gwasanaethau, perfformiad, datblygu a chryfhau cymunedau, a dangos gwerth am arian.

Y 5 Her Bresennol Sy'n Effeithio ar CT

Wrth i landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid geisio datblygu ac ailfeddwl modelau o CT, weithiau maent yn wynebu nifer o heriau. O'n sgysiau ar draws Cymru, y prif faterion yw:

1. Yr angen i ehangu ymgysylltiad tenantiaid i gynnwys pobl iau a grwpiau eraill anodd eu cyrraedd / grwpiau nas clywir yn aml.
2. Ymgysylltu â phreswylwyr trwy defnyddio sianelau newydd fel rhai digidol, cyfryngau cymdeithasol a data mawr.
3. Galluogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau a dweud eu dweud heb ffurfioldeb cyfarfodydd, pwyllgorau, cofnodion a thoreth o waith papur.
4. Cynnig mwy o weithgareddau/cyfleoedd CT gyda llai o adnoddau.
5. Cynnwys tenantiaid wrth ymdrin â materion a dod o hyd i atebion lleol ar gyfer heriau sylweddol fel y Dreth Ystafell Wely, Diwygio Lles, Taliadau gwasanaeth ayb.

Ymgysylltu â phreswylwyr trwy defnyddio sianelau newydd fel rhai digidol, cyfryngau cymdeithasol a data mawr.

Amcanion Y Ddogfen TPAS Cymru Hon

Rydym wedi ymchwilio ac wedi nodi 11 o 'fodelau' o CT a ddefnyddir ar draws Cymru sydd wedi dod i'r amlwg o'r sector tai i gwrdd â heriau cyd-destun gweithredol sy'n newid yn gyflym. Cofnodwyd y modelau i ddangos sut mae'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio; eu buddiannau a chyfyngiadau.

Bydd proffil tenantiaid, daearyddiaeth, hanes, diwylliant sefydliadol, maint a nifer o ffactorau eraill yn dylanwadu wrth benderfynu ar y dull gorau o ddefnyddio CT. Mewn llawer o achosion, bydd angen ystod o fodelau ymgysylltu i gynnwys tenantiaid ac efallai bydd rhaid addasu modelau i weddu i amgylchiadau penodol. Anaml y bydd model unigol yn gweddu i bob sefyllfa.

Rydym am i denantiaid a landlordiaid adolygu llwyddiant eu harferion cyfranogi ac ymgysylltu yn rheolaidd ac addasu i ddulliau eraill a nodir yn y ddogfen hon.

A photograph of a row of terraced houses under a clear blue sky. The houses are multi-story, with light-colored facades and dark window frames. Many have small balconies with black metal railings. A paved sidewalk runs alongside the houses, bordered by a green metal fence and some greenery. The perspective is from a low angle, looking down the length of the street.

Rydym am i denantiaid a landlordiaid
adolygu llwyddiant eu harferion cyfranogi ac
ymgysylltu yn rheolaidd.

Amodau ar Gyfer Cyfranogiad Tenantiaid Effeithiol (TP)

Mae Cyfranogiad Tenantiaid yn weithgaredd partneriaeth. Nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd yn awtomatig, mae'n rhaid ei gynllunio, a'i ddatblygu, a'i adolygu i lywio proses barhaus. Mae CT effeithiol angen yr elfennau canlynol i weithio'n llwyddiannus:

- Modelau - mae tenantiaid a swyddogion angen fframweithiau (ffurfiol neu anffurfiol) fel y gellir sianelu a gweithredu.
- Dull - Mae TPAS Cymru yn credu'n gryf pa bynnag fodel a ddilynwch, y dylid gwneud pob ymdrech i fod yn gynhwysol a sicrhau bod arferion gorau cydraddoldeb yn cael eu dilyn.
- Agweddau - rhaid cael parch ac ymrwymiad y ddwy ochr i newid a rhannu grym.
- Rhaid i gynrychiolwyr ystyried ystod ehangach o safbwyntiau, nid eu agenda bersonol eu hunain yn unig.
- Ymrwymiad gan landlordiaid a thenantiaid i gyfleu'r canlyniadau i'r holl randdeiliaid.

Dangos Gwerth CT

Bydd cymhelliant pobl i gyfranogi a chefnogi CT yn amrywio yn uniongyrchol yn ôl y graddau o newid cadarnhaol sy'n deillio o weithgareddau CT blaenorol.

Mae angen i CT gael ei weld fel buddsoddiad positif felly mae angen i sefydliadau gynllunio a chynnwys dulliau gwerthuso yn eu modelau cyfranogiad er mwyn eu galluogi i asesu a dangos y gwahaniaeth a wnaed a beth sydd wedi newid o ganlyniad i gyfranogiad tenantiaid.

Mae tenantiaid angen gweld canlyniadau eu cyfranogiad. Mae angen iddynt wybod bod eu barn wedi cael gwrandawriad, a lle bo modd, bod gweithredu wedi dilyn. Golyga hyn fod angen adborth ynglŷn â'r hyn mae dylanwad tenantiaid wedi ei gyflawni, neu esboniad o pam nad yw rhywbeth wedi cael ei weithredu.

Dangos sut mae CT yn Gwneud Synnwyr Busnes da

Mae datblygu a chynnal gwerth cadarnhaol a phwysigrwydd CT yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu a thynnu sylw at yr achos busnes/buddiannau. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at dystiolaeth, canlyniadau, effaith a rheoli adnoddau yn effeithiol a rhoi gwerth am arian. Hefyd mae angen i denantiaid gael cyfleoedd i lunio a dylanwadu ar gynllun busnes y sefydliad.

Dylai'r cyswllt rhwng gwerth a manteision CT gael ei wneud yn glir, a sut mae ymgysylltiad tenantiaid yn cyfrannu at gynllun busnes y sefydliad, ei nodau, a'i amcanion: mae angen cael 'llinyn arian' i gysylltu'r gweithgareddau CT gyda chynnwys y cynllun busnes. Er mai prif bwrpas y cynllun busnes yw arwain gweithrediadau a strategaeth, mae hefyd yn ffordd o ymgysylltu a hysbysu rhanddeiliaid am bolisiau yn y dyfodol.

Mae angen cael 'llinyn arian' i gysylltu'r gweithgareddau CT gyda chynnwys y cynllun busnes.

Mae cyfoeth o dystiolaeth sy'n dangos yr arbedion ariannol a wneir gan gymdeithasau tai yn Lloegr o ganlyniad i Gyfranogiad Tenantiaid.

"Tenants Leading Change - An investment not a cost: The business benefits of tenant involvement."

Rhoi Tenantiaid Wrth Wraidd y Busnes

Tenantiaid a phreswylwyr yw'r rhanddeiliaid mwyaf yn achos landlordiaid cymdeithasol felly dylid eu galluogi i chwarae rhan arwyddocaol wrth lunio cynllun busnes y sefydliad. Dylai cynlluniau busnes Landlordiaid Cymdeithasol adlewyrchu anghenion, dyheadau a blaenoriaethau tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau, fel y bo'n briodol. O'r holl rhanddeiliaid, ganddynt hwy mae'r diddordeb mwyaf. Gall eu cartrefi, eu gwasanaethau ac enw da eu landlord fod yn y fantol.

Creu Diwylliant o Gyfranogiad Tenantiaid - Prif-ffrydio

Mae angen cael diwylliant o gyd-ymddiriedaeth, parch a phartneriaeth rhwng tenantiaid a sefydliad landlordiaid ar bob lefel. Mae CT angen trafodaethau agored a gonest i gyrraedd canlyniadau sy'n foddhaol i'r ddwy ochr. Gall perthynas agored ac adeiladol gymryd amser ac ymdrech i'w datblygu, ond mae'n hanfodol os yw CT yn mynd i gael ei brif-ffrydio.

Mae 'Diwylliant' sefydliad yn dechrau ar y brig, felly mae angen i aelodau'r Bwrdd, aelodau etholedig ac uwch staff werthfawrogi a chefnogi datblygiad a manteision CT a dangos eu bod yn barod i wrando ar anghenion ac awgrymiadau tenantiaid.

Ni ddylid gweld Cyfranogiad Tenantiaid fel rhywbeth sydd ond yn ymwneud â thenantiaid a staff cymorth CT arbenigol: nid yw'n weithgaredd ar wahân y tu allan i brif fusnes y sefydliad. Gelwir y dull hwn yn Brif-ffrydio: mae'n golygu y dylai'r holl staff fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision CT, beth sydd wedi newid o ganlyniad i weithgareddau cyfranogiad tenantiaid, sut y gall tenantiaid a phreswylwyr gymryd rhan a sut mae o fudd i bawb sy'n gysylltiedig â'r sefydliad. Mae'r ddealltwriaeth hon o CT a'i fuddiannau hefyd yn galluogi staff i annog tenantiaid i gyfranogi a dweud eu dweud, a sicrhau nad oes unrhyw benderfyniadau mawr yn cael eu gwneud heb ymgynghori â phreswylwyr. Mewn model prif-ffrydio, dylid cynnwys CT yn nisgrifiadau swyddi staff, hysbysebion swyddi ac arfarniadau rheoli.

Creu diwylliant o
gyd-ymddiriedaeth,
parch a phartneriaeth
rhwng tenantiaid a
sefydliad landlordiaid.

Deall beth sydd o ddiddordeb i Denantiaid

Mae angen i ni ofyn 'pam fyddai tenantiaid yn cymryd rhan?' Mae angen i denantiaid fod â diddordeb yn y materion sy'n cael eu trafod: A ydynt yn bynciau sy'n effeithio ar denantiaid a'u cymunedau? E.e. Os yw cwestiynau boddhad cwsmeriaid yn ymdrin â phryderon neu ddiddordebau'r landlord yn unig, mae tenantiaid yn llai tebygol o'u hateb. Fodd bynnag, os yw rhai o'r cwestiynau yn berthnasol i anghenion neu broblemau tenantiaid (ac wedi eu geirio gan ddefnyddio iaith glir) bydd preswylwyr yn fwy tebygol o ymateb iddynt.

Man cychwyn hanfodol yw i landlordiaid gael proffil cywir o'u tenantiaid o ran: oedran, maint aelwydydd, anabledd, cefndir ethnig, ieithoedd a ffefrir, a fformatau ar gyfer cyfathrebu. Hefyd mae angen cael proffil neu fapio cymunedol er mwyn darparu cyd-destun lle mae tenantiaid yn byw a'u materion lleol. Bydd hyn yn galluogi landlordiaid i nodi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac ystyried pa rwystrau i gyfranogiad sy'n bodoli i'r tenantiaid penodol hynny.

Adnoddau Digonol i CT

Mae cynnwys tenantiaid mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd a mynd allan atynt, yn hytrach na disgwyl iddynt ddod at y landlord, yn cymryd amser, arian, ymdrech a sgiliau ar y ddwy ochr. Y cwestiwn allweddol yw p'un a yw'r gost yn ychwanegol at fusnes hanfodol, ynteu a yw'n greiddiol i'r busnes, ac felly'n flaenoriaeth bwysig. Dylai tenantiaid ymwneud â chytuno a monitro'r cyllidebau ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a sicrhau bod adnoddau ariannol a staff digonol ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Dylai tenantiaid ymwneud â chytuno a monitro'r cyllidebau ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a sicrhau bod adnoddau ariannol a staff digonol ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Peidiwch â Defnyddio 'Difaterwch' fel Esgus

Mae'n aml yn wir nad yw tenantiaid yn awyddus i fod yn rhan o weithgareddau CT. Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn â hyn. Weithiau dywedir na all preswylwyr neu denantiaid 'gael eu trafferthu' neu 'nad oes ganddynt ddiddordeb', ond gall hyn fod yn esgus rhy syml. Felly, gall y 'difaterwch' bondigrybwyll fod yn ganlyniad cyfranogiad gwael neu brofiadau negyddol mae tenantiaid neu staff wedi eu cael yn y gorffennol. Efallai nad difaterwch yw, ond dewis rhesymegol - oherwydd nad oedd y materion yn eu diddori neu fod ein dulliau o gyfathrebu â hwy yn wael, neu oherwydd nad ydym yn ei gwneud yn hawdd iddynt ymgysylltu. Yn flaenorol, efallai nad wnaethom fwydo'n ôl iddynt ganlyniadau eu cyfranogiad ac felly nid ydynt yn gweld unrhyw fudd i gydbwysu'r ymdrech a wnaethant.

Gellir yn rhannol ateb y cwestiwn o sut y gellir cynnwys cynifer o bobl â phosibl yn y tai a chymunedau sy'n effeithio arnynt drwy fodloni'r amodau uchod, a thrwy ddarparu ystod o ddulliau a nodir yn y modelau canlynol.

Y Gwahanol Fodelau

Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr | T11

Cipolwg a Yrrir Gan Ddata | T16

Dull Gwella Gwasanaeth yn Barhaus a Grwpiau
Monitro | T18

Dull 'Byddwn yn eich Cefnogi' | T21

Creu Swyddi a Mentrau Cymdeithasol | T24

Cyfranogiad Digidol | T27

Grwpiau Ffocws | T30

Dull Cydweithredol/Cydfuddiannol | T34

Cyd-Gynhyrchu | T37

Grwpiau Diddordeb Arbennig | T39

Model Cyfaill Beirniadol | T42

Buddiannau i Fusnes a Thenantiaid o Bob Model Cyfranogiad Tenantiaid

Mae TPAS Cymru yn wrth ein bodd gyda chyfranogiad tenantiaid gwych ac rydym wedi nodi 11 ffordd o wneud hyn. Mae TPAS Cymru am i chi:

- 1. Ddeall pa fodel neu ddull yr ydych yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.
- 2. Adnabod y manteision a chyfyngiadau pob dull.
- 3. Ystyried a all dull gwahanol fod yn fwy addas i'ch cymuned neu roi cynnig ar ddull 'dewis a dethol' i gyflawni cyfranogiad tenantiaid cynhwysol a phellgyrhaeddol.

	Gwella Cymunedau	Gwella Gwasanaethau & Gwerth am Arian	Atebolrwydd	Capasiti Unigol a Chymunedol	Sgiliau Cyflogaeth
Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr	✓		✓	✓	
Cipolwg a Yrrir Gan Ddata		✓	✓		
Gwella a Monitro Gwasanaethau		✓	✓		✓
Byddwn yn eich Cefnogi	✓			✓	✓
Creu Swyddi a Mentrau Cymdeithasol	✓			✓	✓
Digidol	✓	✓		✓	
Grwpiau Ffocws		✓	✓		
Mentrau Cydweithredol	✓	✓	✓	✓	✓
Cyd-Gynhyrchu	✓	✓	✓	✓	✓
Grwpiau Diddordeb Arbennig		✓		✓	✓
Cyfaill Beirmiadol		✓	✓	✓	✓



Sefydlwyd llawer o'r Cymdeithasau
Tenantiaid a Phreswylwyr gwreiddiol gan
bobl leol eu hunain oherwydd nad oedd
landlordiaid yn ymgysylltu a hwy.



1. Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr

Gelwir hefyd yn: Ddull traddodiadol

Yn hanesyddol, Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr oedd y dull cyfranogiad tenantiaid a ffefrir. Yn wir, sefydlwyd llawer o'r Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr gwreiddiol gan bobl leol eu hunain oherwydd nad oedd landlordiaid yn ymgysylltu â hwy. Yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr wedi gostwng yng Nghymru wrth i ddulliau mwy anffurfiol a llai traddodiadol o gyfranogi ddod ar gael i denantiaid.

Fodd bynnag, mae Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr yn dal i fod yn bwysig, a gallant fod yn ddulliau llwyddiannus a phwysig i denantiaid (a phreswylwyr) gyfranogi yn eu cymunedau lleol, a gwneud penderfyniadau amdanynt.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Yn draddodiadol, sefydlwyd Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr i ddelio â mater neu faterion penodol yn y gymuned e.e. i ddelio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) neu i adeiladu cyfleuster cymunedol fel maes chwarae. Mae dal i fod nifer o grwpiau tenantiaid cryf ar draws Cymru sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynrychioli anghenion y gymuned ehangach o denantiaid a phreswylwyr sy'n byw yn yr ardal, weithiau yn gweithredu fel cyfrwng i sicrhau bod barn/ awgrymiadau/ pryderon tenantiaid yn cael eu clywed gan y landlord. Yn yr un modd, defnyddir Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr yn aml gan landlordiaid fel ffordd o gasglu barn neu ymgynghori â 'chorff cynrychioliadol' o'r gymuned denantiaid ehangach.

Manteision

- Gall Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr sydd â chyfansoddiad llawn gael mynediad at gyllid o ffynonellau eraill – gan rymuso'r gymuned a chefnogi'r landlord i gyflenwi gwasanaethau a/neu gyfleusterau ychwanegol.
- Maent yn lleisiau 'lleol' sy'n adnabod yr ardal, materion, anghenion a phryderon y preswylwyr, ac o ganlyniad yn gallu dal lleisiau na fyddai o bosibl yn cael eu clywed fel arall gan y landlord.
- Mae gan rhai Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr gyfleusterau/ canolfannau cymunedol y gellir eu defnyddio ar gyfer cyrsiau hyfforddi amrywiol a digwyddiadau i gryfhau'r gymuned a sgiliau/gwybodaeth y preswylwyr.
- Mae gan rhai Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr eu sianelau digidol eu hunain.

Anfanteision

- Gall cyfarfodydd Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr gael eu gweld fel rhai rhy ffurfiol gan rai tenantiaid.
- Weithiau ceir diffyg eglurder ynghylch diben a chanlyniadau bwriadedig rhai Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr.
- Weithiau gall Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr gael eu dominyddu gan grŵp bach o unigolion cryf.
- Nid ydynt bob amser yn cynrychioli'r gymuned denantiaid ehangach.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

Gall annog tenantiaid neu breswylwyr i 'gyfranogi' mewn Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr fod yn anodd. Fodd bynnag, mae dulliau ar gael i geisio annog mwy o ddiddordeb mewn cymdeithasau neu grwpiau.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysebu, gan ddefnyddio cymaint o ddulliau gwahanol â phosibl, e.e. ar lafar, posteri gyda lluniau, radio lleol ayb. Amlygwch y gwahaniaeth y mae gweithgareddau'r grŵp wedi ei wneud i'r gymuned - gwerthwch eich hunain!
- Derbyniwch unwaith bod pwrpas y Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr wedi cael ei gyflawni, efallai y penderfynir peidio â pharhau fel grŵp gweithgar. Nid yw hyn yn arwydd o fethiant. Efallai mai dyna'r symudiad mwyaf priodol i'r grŵp ei wneud. O bryd i'w gilydd gall grwpiau ailymddangos ar ôl cyfnod o anweithgarwch er mwyn ymdrin â materion a phryderon newydd.
- Ceisiwch gynnal rhai digwyddiadau anffurfiol, e.e. boreau/nosweithiau coffi, fel ffordd wahanol o annog aelodau newydd i fynychu a chael gwybod am beth rydych yn ei wneud/ wedi'i wneud yn y gorffennol.
- Rhowch gynnig ar newid amserau cyfarfodydd, h.y. os yw cyfarfodydd bob amser yn cael eu cynnal yn ystod y dydd, rhowch gynnig ar ychydig o gyfarfodydd gyda'r nos i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n gweithio yn ystod y dydd.
- Derbyniwch y gall preswylwyr/ tenantiaid fod eisiau eich cefnogi chi, ond efallai nad ydynt eisiau mynychu cyfarfodydd h.y. efallai y byddant yn hapus i ddanfon taflenni i chi neu wneud te/ cacennau ayb. ar gyfer digwyddiadau. Peidiwch â cholli eu cefnogaeth – cynhwyswch hwy ym mha bynnag ffyrdd y maent yn fwyaf cyfforddus.
- 'Adolygwch' eich grŵp yn flynyddol - mae hyn yn ffordd ardderchog o wneud yn siŵr bod eich pwrpas, gweithgareddau a chanlyniadau yn dal i adlewyrchu anghenion y gymuned yr ydych yn ei chynrychioli.
- Edrychwch ar enghreifftiau o arferion da Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr eraill sydd wedi cyflawni eu canlyniadau bwriadedig ac sy'n llwyddiannus wrth 'estyn allan' at eu tenantiaid a phreswylwyr.

Dysgwch Fwy

Mae gan TPAS Cymru nifer o adnoddau ar gael ar gyfer sicrhau canlyniadau gwych i bawb trwy Gymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr. Siaradwch â ni am sut y gallwn helpu.

Mae hyn yn ffordd ardderchog o wneud yn siŵr bod eich pwrpas, gweithgareddau a chanlyniadau yn dal i adlewyrchu anghenion y gymuned yr ydych yn ei chynrychioli.



2. Cipolwg a Yrrir Gan Ddata

Gelwir hefyd yn: Gyfranogiad meintiol

Mae cryfder y dull hwn yn ei ddefnydd o ddata ac adborth gan denantiaid i helpu gyrru cyd-gwneud penderfyniadau, gwella gwasanaethau, mesur boddhad a gosod blaenoriaethau. Yn ei hanfod mae'r gred bod cipolwg meintiol a phatrymau data yn fwy cynrychioliadol na chipolwg cyfyngedig pwyllgor neu grŵp bach o ymgyrchwyr tenantiaid. Ceir barn a safbwyntiau oddi wrth yr holl denantiaid sy'n cael eu heffeithio gan wasanaeth penodol, cynnig neu fenter.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

- Arolygon Tenantiaid Blynnyddol yn mesur boddhad, blaenoriaethau cynnal a chadw a mewnbwn tenantiaid i gynlluniau tymor hir ayb.
- Ffurflenni boddhad ôl-atgyweirio - cael eu cwblhau ar unwaith naill ai'n ddigidol drwy e-bost, SMS, gwefan ayb. neu arolwg papur cyflawn.
- Adborth ar bwynt rhyngweithio. Gwneir hyn fel arfer yn ddigidol gyda chwestiynau syml ar dabled neu ddefnyddio botymau 'Pulse' mewn lleoliad ffisegol fel swyddfa taliadau e.e. sut oedd y gwasanaeth heddiw? Gwasgwch y botwm sy'n cynrychioli hynny orau i chi h.y. wyneb hapus neu wyneb trist.

Ceir barn a safbwyntiau oddi wrth yr holl denantiaid sy'n cael eu heffeithio gan wasanaeth penodol, cynnig neu fenter.

Manteision

- Mae dull a yrrir gan ddata yn rhoi cipolwg dyfnach ac ehangach.
- Rhwystrau cyfranogiad yn llai i'r tenant. Gallant gyfranogi mewn mater o funudau ac nid oes unrhyw bwyllgorau, cofnodion, amser teithio, gwarchodwyr ayb. i'w hystyried.
- Dim dibynnu ar farn gyfyngedig y 'bobl arferol' o blith ymgyrchwyr tenantiaid.
- Mae offer arolwg digidol yn hawdd i'w ddatblygu a'i ddefnyddio.

Anfanteision

- Cyfraddau ymateb ystyrion yn her wirioneddol - Beth sy'n ystadegol arwyddocaol?
- Dehongli'r data: mae hon yn grefft wirioneddol sydd angen hyfforddiant proffesiynol i'w chyflawni'n llwyddiannus.
- Beth sy'n dda? - Wrth werthuso gwasanaeth efallai na fydd y tenant yn gallu dweud os yw ymateb 3 diwrnod yn dda mewn gwirionedd o'i gymharu â darparwyr tai eraill.
- Cwestiynau arweiniol - gall hyd yn oed y gair neu'r cywair lleiaf greu rhagfarn isymwybodol.
- A yw tenantiaid yn mynd i ateb yn onest? Gall pobl sy'n agored i niwed fod ofn mynegi barn. Efallai y byddant yn meddwl eu bod mewn perygl o golli eu cartref os ydynt yn rhoi ymateb negyddol.
- Nid yw'n cynnwys tenantiaid mewn gwirionedd, oni bai eu bod yn ymwneud â chynllunio, dehongli a chanlyniadau'r data a gweithredu'r camau nesaf.

Credwn fod y math hwn o fewnwelediad angen sgiliau da iawn wrth ddehongli data a safbwyntiau.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

Sut ydych chi'n rhoi adborth i'ch tenantiaid? Mae pobl eisiau gweld eich bod wedi ymateb i'w sylwadau, ac eto mae peth o'r cipolwg gorau i'w gael yn ddienw? Sut ydych chi'n mynd yn ôl i 'anhysbys'?

A ydych yn cymell cipolwg? E.e. gwobrwyon am ateb, mynediad i raffl ayb. Gall hyn godi'r cyfraddau ymateb yn sylweddol ond gall arwain at duedd gadarnhaol (pobl yn credu'n anghywir mai dim ond os ydynt yn ateb yn gadarnhaol y byddant yn ennill).

Dysgwch Fwy

Credwn fod y math hwn o fewnwelediad angen sgiliau da iawn wrth ddehongli data a safbwyntiau. Nid yw data ac ystadegau yn ddigon i gael at wraidd anghenion a dyheadau tenantiaid. Siaradwch â ni am sut y gallwn helpu.



3. Dull Gwella Gwasanaeth yn Barhaus a Grwpiau Monitro

Gelwir hefyd yn: Ddull gwella ansawdd

Mae gwella gwasanaethau yn barhaus a grwpiau monitro yn gasgliad o denantiaid/preswylwyr sy'n cyfarfod i adolygu ac asesu gwasanaethau landlord neu fater gwasanaeth penodol. Gall strwythur grwpiau o'r fath amrywio o anffurfiol gydag ychydig iawn o drefniadau rheoli i led-ffurfiol lle mae'r grŵp yn un â chyfansoddiad annibynnol. Bydd natur y grŵp yn dibynnu ar ei bwrpas a pham y cafodd ei sefydlu. Gall y grwpiau hyn fod yn ffordd effeithiol o adolygu gwasanaethau neu ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau, sydd yn ei dro yn arwain at wasanaeth mwy ymatebol ac effeithiol i ddefnyddwyr.

Engbreiffiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Ar hyn o bryd mae landlordiaid yn defnyddio ystod o ddulliau i gynnwys tenantiaid mewn grwpiau ffurfiol sefydledig sy'n anelu at adolygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau fel:

- Paneli Gwasanaeth
- Arolygwyr Tenantiaid
- Archwilwyr Tenantiaid
- Aseswyr Ansawdd
- Gwirwyr Realiti Gwasanaeth

Manteision

- Gall arwain at welliannau o ran ansawdd/effeithiolrwydd gwasanaethau'r landlord.
- Gwella amrywiaeth neu gyfartaledd mynediad at wasanaethau.
- Gall sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwell gwerth am arian.
- Creu gwell dealltwriaeth rhwng tenantiaid a landlordiaid ynghylch sut a pham y cyflenwir gwasanaethau a'r heriau a wynebir gan landlordiaid.
- Gall helpu'r landlord i fod yn atebol i denantiaid am ei berfformiad gwasanaeth Galluogi tenantiaid i wirio iechyd a pherfformiad eu landlord.

Anfanteision

- Gall rhai paneli fod yn anghynrychioliadol o'r corff ehangach o denantiaid.
- Gallant gael eu dominyddu gan leiafrif lleisiol.
- Dim ond llond llaw o denantiaid sy'n ffurfio'r gwasanaethau ar gyfer o bosibl miloedd o gyd-denantiaid.
- Gellir eu seilio ar safbwynt goddrychol os nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Efallai y bydd rhai tenantiaid gyda chipolwg a phrofiad yn cael eu heithrio o'r dull hwn, a all gael ei weld gan rhai pobl fel dull rhy ffurfiol.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- Sicrhewch y gallwch fesur canlyniadau cyfranogiad fel y gellir dangos gwerth yr achos busnes.
- Ystyriwch sut y gall y corff ehangach o denantiaid fwydo 'tystiolaeth' i mewn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a safbwyntiau wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Mae angen gosod disgwyliadau clir a realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni.
- Mae angen cysylltu'r dull i amcanion Cynllun Busnes y sefydliad.
- Sefydlu system i roi adborth a bod yn atebol i'r corff ehangach o denantiaid.
- Mae aelodau'r grŵp yn aberthu llawer o amser er mwyn cyfranogi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl am eu disgwyliadau a'u hanghenion, a rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd ac yn eu gwerthfawrogi.
- A ydych yn defnyddio'r grŵp fel yr unig ffordd o gael adborth gan ddefnyddwyr? Cadwch mewn cof: waeth pa mor galed yr ydych yn ymdrechu, yn anaml y mae grwpiau yn gynrychioliadol oherwydd yr ymrwymiad y maent yn ei fynnu gan gyfranogwyr. Gallai ffurfiau ymgynghori ychwanegol fod yn ddefnyddiol i'w hategu.
- A oes gennych ddigon o adnoddau? Gall rhedeg a chynnal grŵp olygu costau sylweddol.
- Sut ydych chi'n osgoi blinder grŵp? Ydych chi'n cynllunio rhaglen ddiddorol? Ystyriwch sut y gallwch gymell a chynnwys aelodau'r panel heb eu diflasu a'u llethu.
- Gallech annog grŵp o denantiaid sy'n 'anodd i'w hymgysylltu' drwy ffurfio grŵp monitro i edrych ar fater penodol e.e. cynnwys pobl sydd yn gaeth i'r tŷ.

Dysgwch Fwy

Mae gan TPAS Cymru flynyddoedd o brofiad yn y math hwn o gyfranogiad tenantiaid. Siaradwch â ni am ein digwyddiadau, ymgynghoriaeth a chynghor ar sut y gallwn helpu.

Mae pobl yn dod at ei gilydd yn helpu i wella cymuned a helpu cynhwysiant cymdeithasol, mae'n lliniaru eithrio ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cymuned.



4. Dull 'Byddwn yn eich Cefnogi'

Gelwir hefyd yn: Gyfranogiad Tenantiaid trwy gyfrwng anghenion y gymuned

Yn aml mae gweithredu yn y gymuned drwy gyfrwng grwpiau neu brosiectau yn ymateb i anghenion casgliadol. Efallai eu bod yn rhannu'r un diddordebau neu hobiau neu eu bod yn awyddus i ymdrin â mater neu bryder lleol penodol. Mae gweithredu a arweinir gan y gymuned yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae pobl yn dod at ei gilydd yn helpu i wella cymuned a helpu cynhwysiant cymdeithasol, mae'n lliniaru eithrio ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cymuned - yr holl elfennau sy'n hanfodol i unrhyw gymuned sy'n ymdrechu i fod yn gynaliadwy.

Wrth gwrs, nid ffocysu ar ddatrys problemau yn unig y mae gweithredu cymunedol. Gall gweithredu cymunedol hefyd fod yn rhagweithiol ac adeiladu ar agweddau cadarnhaol y gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynnal digwyddiadau cymunedol, gan wneud y gorau o asedau cymunedol, creu prosiectau celfyddydau a rhedeg clybiau chwaraeon.

Gall landlordiaid cymdeithasol hefyd weithredu fel sefydliadau 'angor cymunedol' drwy chwarae rôl gyfannol wrth gefnogi cymuned, yn enwedig lle y gall gefnogi cyfranogiad mewn mentrau adfywio tymor hwy. Gall hyn fod drwy gynorthwyo cymunedau mewn nifer o ffyrdd, megis:

- Cael gafael ar gyllid
- Datblygu cynlluniau busnes
- Darparu adeilad
- Cyfeirio at sefydliadau eraill
- Marchnata a hyrwyddo
- Annog staff i gyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol
- Cyngor ar lechyd a Diogelwch, asesiadau risg ac ati

Mae Datblygu Asedau Cymunedol yn ymwneud â'r ffordd o gysylltu micro-asedau â'r amgylchedd-macro. Y cynsail yw y gall cymunedau adnabod a mobileiddio asedau sy'n bodoli eisoes ond yn aml heb eu cydnabod a thrwy hynny ymateb a chreu cyfleoedd economaidd lleol. Mae dulliau sy'n seiliedig ar asedau yn golygu y gall landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid ystyried y ffordd orau o gefnogi cymunedau. Gall y dull hwn fod yn rhan annatod o ddatblygu cymunedol yn yr ystyr ei fod yn ymwneud â hwyluso tenantiaid a chymunedau i ddod at ei gilydd er mwyn cyflawni newid cadarnhaol gan ddefnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a phrofiad byw o'r materion y maent yn eu hwynebu yn eu cymuned eu hunain.

Yr hyn sy'n allweddol yw bod landlordiaid cymdeithasol yn cefnogi ond nid yn arwain.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

- Landlord yn rhoi lle ar gyfer cyfarfod cymunedol: cynnig llungopïo'r taflenni a wneir gan denantiaid; trefnu a thalu am luniaeth.
- Gweithgareddau 'Rhoi & Ennill' o fewn y gymuned (Mae Diwrnod Rhoi ac Ennill Busnes yn y Gymuned yn ddathliad o bŵer anhygoel gweithwyr i wirfoddoli).
- Cefnogi sefydlu Mentrau Bwyd Cymunedol Cydweithredol.
- Landlordiaid yn darparu cyngor a chefnogaeth ar bynciau gan gynnwys cyllid/rheoli cyllidebau.
- Darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau a nodwyd gan y gymuned fel rhai sydd eu hangen.
- Datblygiad personol i denantiaid/preswylwyr sydd am fod yn rhan o weithredu cymunedol.
- Hwyluso cysylltiadau â'r gymuned ehangach ac asiantaethau eraill.
- Helpu cymuned gael mynediad at gronfeydd i wella'r ardal leol.
- Galluogi dadl a thrafodaeth lleol er mwyn ysgogi gweithredu pellach arweinir gan y gymuned.

Cynorthwyo ysbryd cymunedol drwy annog tenantiaid/preswylwyr i gyfarfod â phobl newydd.

Manteision

- Yn grymuso tenantiaid a phreswylwyr.
- Yn darparu cymorth i wneud i bethau ddigwydd.
- Gweithgarwch a arweinir gan wirfoddolwyr yn ffynhonnell allweddol o ddarpariaeth yn y cymunedau gan na all y sector cyhoeddus neu'r sector preifat ddarparu popeth y mae cymuned ei angen neu ei eisiau.
- Gall gynorthwyo ysbryd cymunedol drwy annog tenantiaid/preswylwyr i gyfarfod â phobl newydd, dysgu sgiliau newydd a chyfranogi'n uniongyrchol yn y gymuned leol.
- Yn cydnabod na fydd canlyniadau iechyd a chymdeithasol cadarnhaol yn cael eu cyflawni drwy gynnal diwylliant 'gwneud drostynt'.
- Yn cydnabod ac yn adeiladu ar gyfuniad o'r cyfalaf dynol, cymdeithasol a ffisegol sy'n bodoli o fewn cymunedau lleol.

Anfanteision

- A yw hyn yn Gyfranogiad Tenantiaid o fewn gwasanaethau tai landlord ynteu'n ddim mwy na datblygiad cymunedol?
- Efallai na fydd gweithredu cymunedol yn gynrychioliadol o'r gymuned ehangach.
- Efallai na fydd gweithredu cymunedol yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth y gymuned.
- Gall gweithgarwch cymunedol ganolbwyntio ar leiafrif o denantiaid ac eithrio pobl eraill.
- Gall capasiti landlord gael ei ymestyn yn ormodol wrth gefnogi'r holl fentrau.
- A yw'n gwella ansawdd a gwerth gwasanaethau landlord?

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- Sut i benderfynu pa fentrau i'w cefnogi; efallai y bydd angen cytuno ar feini prawf o fewn y sefydliad landlord i sicrhau bod mentrau yn cefnogi nodau ac amcanion cynllun busnes y sefydliad.
- Sut i fod yn glir gyda'r gymuned ynglŷn â sut beth yw'r berthynas gymorth, a pha mor hir y bydd yn parhau. Gall fod werth egluro hyn yn ysgrifenedig.
- Os yn darparu cymorth ariannol i gymuned, sut bydd y gymuned yn atebol am y modd y cafodd yr arian ei wario.
- A yw'r prosiect a arweinir gan y gymuned yn dyblygu mentrau eraill?
- Gwybod pryd mae cymorth ymarferol yn dod yn ddibyniaeth, sut mae'r landlord wedyn yn delio â hyn? Nid yw bob amser yn hawdd camu i ffwrdd.

Dysgwch Fwy

Mae TPAS Cymru yn credu y byddwn yn gweld mwy o'r math hwn o gyfranogiad tenantiaid yn y dyfodol. Siaradwch â ni am ein digwyddiadau, ymgynghoriaeth a chynghor ar sut y gallwn ni eich helpu i lwyddo.

5. Creu Swyddi a Mentrau Cymdeithasol

Gelwir hefyd yn: Ddull a arweinir gan gymunedau

Beth yw Menter Gymdeithasol? Ceir trafodaeth faith am y pwnc hwn, gyda rhai pobl yn honni nad oes unrhyw ddiffiniad neu strwythur gosodedig sy'n cyfrannu at fenter gymdeithasol, yn hytrach, mae'n ethos sefydliadol neu'n 'gyflwr meddwl'.

Diffiniad Llywodraeth Cymru o Fenter Gymdeithasol yw **'busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf ac sy'n ail-fuddsoddi unrhyw 'elw' er mwyn cyflawni'r amcanion hynny neu er budd y gymuned. Nid yw felly yn cael ei gymell gan yr angen i wneud yr elw mwyaf posib i gyfranddalwyr a pherchnogion'**.

Mae nifer o landlordiaid yn mynd ati i recriwtio a hyfforddi pobl leol i weithio ar raglenni buddsoddi, cynnal a chadw a gwaith amgylcheddol. Maent wedi arwain y ffordd o ran yr hyn a elwir yn Recriwtio a Hyfforddiant wedi'i Dargedu, ac maent wedi helpu i ddatblygu ystod o adnoddau - Pecynnau Cymorth Gallu Gwneud – er mwyn gwneud i hyn ddigwydd.

Ar hyn o bryd, mae mentrau cymdeithasol yn uchel ar agenda pawb, ac mae hynny oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn bopeth o waredwr yr economi, i'r lefel nesaf o gynhwysiant ariannol ac fel modd o gynyddu grymuso tenantiaid o safbwynt y landlord cymdeithasol.

Gellir defnyddio'r model busnes hwn i ymgysylltu mwy â thenantiaid.

Mae nifer o landlordiaid yn mynd ati i recriwtio a hyfforddi pobl leol i weithio ar raglenni buddsoddi.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Ceir rhai enghreifftiau nodedig o Fentrau Cymdeithasol llwyddiannus yn yr hen ardaloedd maes glo lle mae rhaglenni creu swyddi soffistigedig. Mae gan Ogledd Cymru hefyd rai enghreifftiau rhagorol megis CREST Co-operative a Chartrefi Conwy. Hefyd bu nifer o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn llwyddiannus yn dilyn y dull hwn.

Manteision

- Yn gallu gwella/ datblygu sgiliau a hyder tenantiaid unigol.
- Yn gallu cryfhau a datblygu balchder mewn cymunedau.
- Argraff gadarnhaol o'r landlord.
- Yn gallu adnabod tenantiaid sydd â sgiliau a gwerthoedd sy'n gallu cyfrannu at weithgareddau eraill.
- Gall greu swyddi/ gwaith ar gyfer tenantiaid ac eraill yn y gymuned.
- Gwella gwerth net hunan- werth y gymuned.

Anfanteision

- Nid yw o reidrwydd yn gwella gwasanaethau tai er bod tystiolaeth yn awgrymu bod Recriwtio a Hyfforddiant wedi'i Dargedu yn llwyddiannus wrth wella gwasanaethau.
- Nid yw'n cyfrannu at strategaeth y sefydliad.
- Nid yw'n cynorthwyo atebolrwydd neu natur agored y landlord.
- Ai rôl landlord cymdeithasol yw creu swyddi? Oni ddylai landlordiaid yn hytrach ganolbwyntio ar eu rolau 'bara menyn', fel atgyweirio a chynnal a chadw, lefelau rhent ac ati?

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- Gall sefydliadau eraill fod yn gweithio yn yr ardal ac yn cyflawni tasgau tebyg - gall fod yn gyfle i weithio mewn partneriaeth neu gall olygu perygl o ddyblygu.
- Mae'n gyfle i ddarparu 'gwerth ychwanegol' i denantiaid y sefydliad a'u cefnogi i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach ayb.

Dysgwch Fwy

Mae ein cymunedau angen y cymorth a'r cyfranogiad yma yn ein cymunedau. Siaradwch â ni am ein digwyddiadau, ymgynghoriaeth a chynghor ar sut y gallwn eich helpu i lwyddo.



Gall cyfranogiad digidol gael ei addasu'n hawdd i gynnwys amrywiaeth o ddulliau cyfranogi meintiol ac ansoddol.



6. Cyfranogiad Digidol

Gelwir hefyd yn: Arweinir yn Ddigidol neu Digidol yn Gyntaf

Deilliodd y model hwn o wendidau canfyddedig modelau eraill.
Wrth ei wraidd mae'r canlynol:

- Gall cyfranogiad digidol gael ei addasu'n hawdd i gynnwys amrywiaeth o ddulliau cyfranogi meintiol ac ansoddol. Llwyfan yn unig yw digidol; mae'r offer a'r dulliau i fyny i chi.
- Gall chwilio am gyfranogiad pobl 24:7. Nid oes angen mynychu cyfarfodydd ffurfiol.
- Gall haenu cynulleidfaoedd a thracio amrywiaeth i gael mynediad gwell at gipolwg o gynulleidfaoedd a chymunedau penodol.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

- Paneli Tenantiaid ar-lein yr ymgynghorir â hwy ar amrywiaeth o bynciau, e.e. boddhad gyda gwasanaethu, arolygon ar bynciau penodol, penderfyniadau strategol neu weithredol.
- Fforymau trafod ac ystafelloedd sgwrsio penodol ar gyfer tenantiaid.
- Sgwrsio ar y we a gwe-seminarau gydag arbenigwyr pwnc allweddol neu uwch-reolwyr.
- Offer Cyfryngau Cymdeithasol Allanol fel grwpiau Facebook caeedig/agored, cynnwys landlord/ cymuned a thrafodaethau ar lwyfannau cymunedol 3ydd parti fel Streetview.
- Creu opsiynau i denantiaid eu defnyddio, creu a rhannu fideo hunan-wneud, defnyddio technoleg 'smart' i gofnodi materion a syniadau.
- Rydym hefyd yn gweld y defnydd o dechnegau realiti rhithwir yn cael eu defnyddio fel offeryn ymgysylltu mewn sectorau eraill. Mae hyn yn gyffrous yn y maes tai.

Creu opsiynau i denantiaid eu defnyddio,
creu a rhannu fideo hunan-wneud, defnyddio
technoleg 'smart' i gofnodi materion a syniadau.



Manteision

- Gall digidol fod yn gynhwysol - gall tenantiaid gyfrannu o gysur eu cartref neu'n symudol ar eu ffôn clyfar. Gall ddigwydd ar unrhyw adeg o'r dydd. Dim cyfarfodydd yn cael eu cynnal tra'r ydych yn y gwaith, nid oes angen trefnu gofal plant, dim lleoliadau anhygyrch neu bentyrrau o bapurau pwyllgor i'w hargraffu.
- Gall digidol hefyd fod yn gynhwysol i bobl ag anableddau, problemau iechyd neu sgiliau iaith cyfyngedig. Gall tenantiaid gyfrannu pan maent yn teimlo'n gyfforddus a phan mae'n gyfleus iddynt.
- Mae amrywiaeth gwych o offer i greu ymgysylltiad a chyfranogiad tenantiaid. Yn TPAS Cymru rydym yn gweld rhai enghreifftiau rhagorol. Yn ogystal, mae'r sianelau cyfryngau cymdeithasol mawr i gyd ag offer targedu cost isel i roi hwb i'ch neges a chyrraedd eich cynulleidfaoedd targed.
- Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd gwelliannau mawr mewn offer cyfieithiadau ac apiau. Er nad ydynt yn berffaith, maent yn caniatáu i bobl gyda dealltwriaeth gyfyngedig o Saesneg neu Gymraeg gyfieithu offer cyfranogiad digidol i ieithoedd eraill y maent yn fwy cyfforddus â hwy.
- Cyrraedd denantiaid nad ydynt yn ymgysylltu ar hyn o bryd - mae'r rhan fwyaf o sianelau cyfryngau cymdeithasol wedi datblygu offer rhagorol i dargedu negeseuon i leoliad neu grŵp diddordeb penodol. Mae gan TPAS Cymru astudiaethau achos y gall eu rhannu ar sut i gyrraedd eich tenantiaid a rhanddeiliaid eraill.

Anfanteision

Gall cyfranogiad digidol eithrio mewn nifer o ffyrdd:

- Nid yw'r holl gymdeithas ar-lein neu'n gyfforddus â defnyddio technolegau newydd. Bydd dull digidol yn unig ar y cam hwn yn eithrio rhannau o gymdeithas.
- Hefyd nid yw pob offer a llwyfan digidol yn hygyrch i dechnoleg gynorthwyol fel darllenwyr sgrin neu gapiwn sain. Mae hyd yn oed rendro ac ymarferoldeb symudol/taled ar goll o ormod o atebion digidol.
- Troliaid - mae TPAS Cymru wrth ei fodd â beirniadaeth adeiladol - ond mae ffordd o'i fynegi. Yn anffodus, mae pobl allan yna sy'n dod o le o ddicter, yn hytrach na'u bod wirioneddol eisiau mewnbwn ar fater mewn ffordd bwyllog. Mae angen monitro, rheoli a diogelu eraill yn y gymuned ddigidol lle gall pobl gymryd rhan a rhoi eu mewnbwn heb ofni aflonyddwch.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

A oes gan y gymuned yr ydych eisiau ei chyrraedd flogwyr cymunedol amlwg y gallwch fynd atynt i sôn am eich negeseuon neu ymgynghoriadau allweddol? A ydynt yn defnyddio eu proffil i gael negeseuon allan?

Angen bod yn agored i ddulliau newydd ac atebion technegol bob amser. Nid yw'r ffaith bod un dacteg heb gael yr ymgysylltiad yr oeddech eisiau yn golygu bod dulliau gwahanol ddim yn mynd i chwaith. Yn fuan, bydd realiti rhithwir yn esgor ar gyfleoedd newydd i drawsnewid cyfranogiad.

Dysgwch Fwy

Siaradwch â TPAS Cymru am yr arferion digidol gorau. Mae gan ein gwefan ddigon o awgrymiadau, cyngor a chanllawiau arfer gorau. Mae wastad yn newid. Noder: cyfyngir peth o'r cynnwys i aelodau yn unig.

Gall digidol hefyd fod yn gynhwysol i bobl ag anableddau, problemau iechyd neu sgiliau iaith cyfyngedig. Gall tenantiaid gyfrannu pan maent yn teimlo'n gyfforddus a phan mae'n gyfleus iddynt.



7. Grwpiau Ffocws

Gelwir hefyd yn: Ddull ansoddol

Gall grwpiau ffocws roi dealltwriaeth graff o wasanaethau, materion a sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu casglu o arolygon amlddewis safonol, megis arolygon boddhad STAR, neu gyfarfodydd cyhoeddus mawr. Gall grwpiau ffocws roi cyfle i unigolion fynegi eu barn yn fanwl, i glywed barn pobl eraill ac i ddatblygu datrysiadau i broblemau ar y cyd.

Gall gwybodaeth fanwl ac anecdotaidd gael ei chyflwyno a'i thrafod, a all arwain at well dealltwriaeth o safbwyntiau, blaenoriaethau neu ddyheadau tenantiaid/preswylwyr. Gan fod grwpiau ffocws yn seiliedig ar gyfathrebu a thrafodaeth agored, gallant hefyd arwain at well cysylltiadau landlord/ cymunedol, ymddiriedaeth a synnwyr o berchnogaeth yn y broses a'r canlyniad. Y nifer delfrydol o gyfranogwyr i bob grŵp ffocws yw rhwng pump a 15 o unigolion.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

- Grwpiau diddordeb arbennig
- Sesiynau mapio Taith Cwsmeriaid
- Sesiynau dilyniant arolwg STAR

Gall grwpiau ffocws roi cyfle i unigolion fynegi eu barn yn fanwl, i glywed barn pobl eraill ac i ddatblygu datrysiadau i broblemau ar y cyd.

Manteision

- Mae grwpiau ffocws, yn dilyn technegau ymchwil arall sy'n ddefnyddio arolygon amlddewis neu arolygon penagored wedi'u cyfeirio at sampl mwy o denantiaid, yn ddull dilynol ardderchog i'ch galluogi i gael gwell cipolwg ar y canlyniadau.
- Mae dwyn ynghyd grŵp o denantiaid/preswylwyr i drafod gwasanaeth neu bwnc penodol yn rhoi lleoliad mwy naturiol na chyfweliadau un-i-un.
- Gellir defnyddio grŵp ffocws i brofi cynigion ar gyfer gwasanaethau newydd neu syniadau prosiect cymunedol.
- Gall helpu i ddeall blaenoriaethau tenantiaid yn well, a'r hyn y maent yn weld o 'werth' gan y landlord a gwasanaethau cymunedol.
- Gall gynhyrchu data ansoddol cyfoethog mewn gyda llai o adnoddau na chyfweld yn unigol.
- Gellir ei ddefnyddio i helpu gwirio neu egluro canlyniadau'r arolygon.
- Gall helpu i lywio penderfyniadau, cynllunio busnes/strategol a dyrannu adnoddau.
- Gall ychwanegu dimensiwn dynol at ddata meintiol sydd weithiau'n amhersonol.
- Gall helpu i ddangos cyd-gwneud penderfyniadau.

Anfanteision

- Gan fod grwpiau ffocws yn cynnwys nifer mor fychan o gyfranogwyr, mae'n aml yn anodd cyffredinolli canfyddiadau i'r boblogaeth tenantiaid/preswylwyr ehangach.
- Gall fod angen llawer iawn o amser ac adnoddau eraill wrth baratoi, prosesu gwybodaeth ac adrodd.
- Gall dewis y cyfranogwyr, creu'r canllaw trafod a dewis hwylusydd effeithiol fod yn heriau sylweddol.
- Yn aml, gall canfyddiadau fod yn anodd i'w dal, eu dadansoddi neu eu crynhoi'n fanwl gywir.



Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- **Diffinio'r pwrpas yn glir** - Mae cael eglurder pwrpas, nodau ac amcanion yn uniongyrchol effeithio ar ansawdd y broses grŵp ffocws a chanlyniadau.
- **Nodi ac egluro rôl yr hwylusydd** - Mae cael hwylusydd effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y grŵp ffocws.
- **Datblygu canllaw trafod** - Cyn cynnull y grŵp ffocws rhaid meddwl am greu canllaw trafod gyda chyflwyniad penodol (esbonio pwrpas), corff (prif gwestiynau i ymdrin â hwy) a chasgliad (dyddiad targed ar gyfer adrodd yn ôl i'r grŵp a'r gymuned).
- **Nodi a recriwtio cyfranogwyr** - Cynnwys yr holl denantiaid/ preswylwyr perthnasol yn y broses grŵp ffocws ac ystyried cynnal nifer o grwpiau ffocws ar wahân a allai gynrychioli gwahanol safbwyntiau.
- **Paratoi ar gyfer y cyfarfod** - Cynlluniwch y cyfarfod ar adeg sy'n dderbyniol i bawb ac os oes angen mewn man cyfarfod niwtral.
- **Hwyluso'r grŵp ffocws** - Gwnewch yn siŵr bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i siarad ac ymateb. Cytuno ar reolau sylfaenol ac agenda.
- **Dadansoddi data** - Adolygu'r nodiadau, sain, a fideo o'r cyfarfod. Dewiswch yr holl eiriau allweddol, dyfyniadau a syniadau pwysig, a'u grwpio i gategoriâu neu themâu canolog.
- **Adrodd ar y canfyddiadau** - Strwythurwch yr adroddiad gyda chefnidir y prosiect neu'r mater dan sylw, disgrifiad o'r broses a ddilynodd y grŵp i ddatblygu'r grŵp ffocws, a chrynodeb o'r canfyddiadau.

Mae cael eglurder pwrpas, nodau ac amcanion yn uniongyrchol effeithio ar ansawdd y broses grŵp ffocws a chanlyniadau.

Dysgwch Fwy

Mae TPAS Cymru yn credu y gall y math hwn o gyfranogiad tenantiaid ddod â syniadau gwych a safbwyntiau gan denantiaid o ran gwella'r materion sydd o bwys iddyn nhw. Siaradwch â ni am ein digwyddiadau, ymgynghoriaeth a chynghor ar sut y gallwch gael y gorau o Grwpiau Ffocws.



Mae TPAS Cymru yn credu y gall y math hwn o gyfranogiad tenantiaid ddod â syniadau gwych a safbwyntiau gan denantiaid o ran gwella'r materion sydd o bwys iddyn nhw.

8. Dull Cydeithredol/Cydfuddiannol

Mae'r model cydweithredol yn fodel cynhwysfawr ac ystyrlon o gyfranogiad tenantiaid oherwydd bod y tenantiaid (neu'r aelodau) yn gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Arweinir y dull cydweithredol gan y gymuned (ac mewn rhai achosion y gymuned yw'r perchennog) ac mae'n dilyn egwyddorion cydweithredol sy'n cynnwys gwerthoedd hunangymorth, hunan-gyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb ac ymreolaeth ac annibyniaeth i denantiaid wrth wneud penderfyniadau. Mae'n wahanol i fathau eraill o gyfranogiad tenantiaid am ei fod yn ymwneud ag annog a chefnogi rheolaeth gymunedol leol dros dai a chymdogaethau. Gellir defnyddio ei egwyddorion mewn llawer o ffyrdd gwahanol i ddiwallu anghenion gwahanol randdeiliaid.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Er bod egwyddorion y dull hwn yn drosglwyddadwy, mae'n ddull a welir gan amlaf mewn mentrau cydweithredol tai a elwir fel arall yn dai cydfuddiannol (ym mherchnogaeth gydfuddiannol aelodau) sy'n cael ei reoli naill ai'n gyfan gwbl, neu'n bennaf, gan denantiaid. Os yw'r sefydliad tai yn 'Gyfan Gwbl Gydfuddiannol' dim ond tenantiaid neu ddarpar denantiaid sydd â'r hawl i fod yn 'aelodau' a rheoli ei fusnes, sy'n cynnwys corff aelodaeth cymunedol democrataidd yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu cartrefi.

Yn fwy diweddar sefydlwyd y fenter gydfuddiannol tenant/gweithiwr gyntaf ac mae nifer o fentrau cydweithredol tai wedi eu ffurfio, a gefnogir gan gymdeithasau tai unigol, awdurdodau lleol a Chanolfan Gydwethredol Cymru.

Manteision

- Mae'r dull hwn yn cydnabod pwysigrwydd tenantiaid (ac mewn rhai achosion gweithwyr) yn y deiniad o greu sefydliad rhagorol sy'n gwasanaethu'r cyhoedd.
- Mae'n rhoi cyfle i gymunedau wneud penderfyniadau am eu cartrefi eu hunain sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol trwy gryfhau cysylltiadau cymunedol a balchder cymunedau lleol.
- Mae'n torri i lawr yr hen fodel o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu "cyflwyno" i ddefnyddwyr a'r rhwystrau a grëir gan rolau gwahanol landlord/tenant a gweithiwr/cyflogwr.
- Mae'n caniatáu i denantiaid/ aelodau adennill agweddau ar eu bywydau ac ymbellhau oddi wrth y strwythurau/ cydberthnasau hierarchaidd sy'n gysylltiedig â bod yn gwsmer.
- Mae'n rhoi rhan wirioneddol yn y sefydliad i denantiaid, ei ddyfodol a rheolaeth o'i wasanaethau.
- Mae gan denantiaid/aelodau fwy o ymdeimlad o reolaeth ar eu cartrefi yn nhermau sicrwydd deiliadaeth, rhannu gwneud penderfyniadau a sefydlogrwydd ariannol.

Anfanteision

- Er y gall egwyddorion menter gydweithredol gael eu mabwysiadu'n rhannol o fewn sefydliad, er mwyn iddynt gael eu gwireddu'n llawn, byddai angen i sefydliad ddod yn sefydliad cydweithredol/cydfuddiannol. Gall hyn fod yn gymhleth iawn a byddai'n golygu llawer o ymdrech, arbenigedd ac adnoddau.
- Beth am y rhai nad ydynt yn aelodau? Gallant gael eu hunigo neu eu heithrio yn anfwriadol o gyfranogiad tenantiaid dim ond am eu bod yn dewis peidio â bod yn aelod.
- Gall fod yn anodd trosglwyddo neges i denantiaid am beth yw eu rolau a'u cyfrifoldeb fel rhan o fenter gydweithredol tai ac o ganlyniad gallai fod yn anodd recriwtio aelodau newydd fel ei fod yn cyflawni ei bwrpas. Gall gymryd amser hir, felly, i redeg fel corff annibynnol.
- Mewn menter gydweithredol tai, gall aelodau ymarfer cryn ddylanwad a bydd ganddynt y grym i benodi a diswyddo Bwrdd y Cyfarwyddwyr; byddant yn gosod y gwerthoedd a'r cyllidebau a byddant yn cymeradwyo'r cyfrifon a'r adroddiad archwilio. Mae'r dyletswyddau hyn yn golygu bod angen i aelodau fod â'r sgiliau i gyflawni'r dyletswyddau hyn ac felly mae'n debyg y bydd angen cyfnod o uwchsgilio.



Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

Fel yr amlygwyd yn yr adran uchod, nid yw hwn yn ddull syml ac efallai na fydd yn addas nac yn gyraeddadwy i bawb. Mae hwn yn ddull tymor hir sydd angen cefnogaeth lawn yr holl staff a'r uwch dîm rheoli. Er mwyn iddo fod yn gwbl effeithiol a chwrdd ag egwyddorion cydweithredol, mae angen cael cytundeb y tenantiaid ac mae angen iddo fod yn rhan o strategaeth y landlord. Fodd bynnag, unwaith y bydd hyn wedi ei wneud, mae'n fodel cyfranogiad tenantiaid effeithiol a chynhwysfawr.

Dysgwch Fwy

Mae TPAS Cymru yn credu y byddwn yn gweld mwy o'r math hwn o gyfranogiad tenantiaid yn y dyfodol. Siaradwch â ni am sut y gallwn eich helpu i gyflawni cyfranogiad cydweithredol gwyh.

Mae hwn yn ddull tymor hir sydd
angen cefnogaeth lawn yr holl
staff a'r uwch dîm rheoli.



9. Cyd-Gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn ddull cyffrous sy'n galluogi tenantiaid a gweithwyr proffesiynol tai i rannu grym a gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth, i ddylunio a chreu datrysiadau, polisïau a chyfleoedd sy'n gweithio i bawb. Yn wir, gall yr holl randdeiliaid, boed hwy'n denantiaid, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr teuluol neu ddarparwyr gwasanaeth, weithio gyda'i gilydd i ddatgloi'r amrywiaeth eang o asedau yn ein cymunedau. Mae'r dull yn cael ei yrru gan werthoedd, ac wedi'i adeiladu ar yr egwyddor mai'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth sydd yn y sefyllfa orau i helpu ei ddylunio. Mae gan bawb lais ac mae pawb yn cael ei werthfawrogi. Yr amcan yw symud i ffwrdd oddi wrth wasanaethau a gynigir i wasanaethau a arweinir gan alw.

Co-Production Principles to Solve our Problems Together

- Gwerthfawrogi pobl fel Asedau
- Adeiladu ar Gryfderau Pobl
- Ffocws ar Ganlyniadau Personol
- Rhwydweithiau Cymorth Cyfoedion
- Ymddiriedaeth, Cydraddoldeb a Phartneriaethau
- Catalyddion ar gyfer Newid

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Nid ymgynghoriad yw cyd-gynhyrchu. Mae'n gwerthfawrogi pobl a golyga gydgomisiynu, cydgynllunio, cyd-gyflwyno, a chyd-arfarnu. Yn aml nodir Gwarchod y Gymdogaeth fel enghraifft o gyd-gynhyrchu cynnar. Gwelsom gymunedau yn gweithio gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol fel yr heddlu, landlordiaid a sefydliadau cymunedol; yn gynyddol, rydym yn gweld tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio ar ddatblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau, a gefnogir gan gredydau amser i wobrwyo a gwerthfawrogi ymgysylltiad y tenantiaid â'r gymuned. Mae gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol eisoes wedi datblygu dulliau cyd-gynhyrchu newydd, cyffrous.

Manteision

- Mae'r rhan fwyaf o enghreifftiau lle mae cyd-gynhyrchu yn cael ei ymarfer yn llwyddiannus yn digwydd ar raddfa leol. Hefyd mae cyd-gynhyrchu yn gweddu i sefydliadau llai (yn draddodiadol y rhai yn y trydydd sector) sydd yn fwy cyfarwydd â gweithio mewn ffyrdd llai strwythuredig a hierarchaidd.
- Mae cyd-gynhyrchu yn cynyddu cefnogaeth y gymuned ac yn canfod dulliau ac atebion newydd i'r heriau rydym yn eu hwynebu. Mae cyd-gynhyrchu yn fodel cadarnhaol iawn ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, gan ei fod yn rhoi gwerth ac yn rhannu grym a gwneud penderfyniadau.
- Mae'r atebion yn lleol ac yn seiliedig ar werthoedd.

Anfanteision

- Mae'n gwneud galwadau ychwanegol ar bobl sy'n defnyddio ac yn dibynnu ar wasanaethau tai.
- Gellir ei weld fel gorchudd ar gyfer tynnu'n ôl wasanaethau a gyflwynir yn broffesiynol.
- Gallai gwasanaethau a gyd-gynhyrchir arwain at loteri cod post o ran darparu gwasanaethau, a dulliau anghyson sy'n gallu lleihau arbedion maint.
- Gwneud penderfyniadau - weithiau mae angen penderfyniadau neu gamau yn gyflym, sy'n golygu her i amgylcheddau cyd-gynhyrchu newydd.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau dderbyn newidiadau mewn grym oherwydd bod atebion yn cael eu cyd-gynhyrchu.
- Weithiau mae angen hefyd gwneud rolau a chyfrifoldebau yn glir, ynghyd â rhai cyfyngiadau, fel y gall yr ynni ac asedau sy'n bodoli gyda'i gilydd ffocysu ar yr her.
- Gall pobl gael eu gwerthfawrogi ac mae llawer o ffyrdd o werthfawrogi ymroddiad.

Dysgwch Fwy

Un o brif ffactorau llwyddiant ar draws yr holl brosiectau cyd-gynhyrchu yw datblygu rhwydweithiau cymorth cyfoedion. Yn ffodus, mae gan Gymru ymrwymiad gwirioneddol i hyn ac mae adnoddau cymorth i helpu datgloi asedau sydd o fewn eich cymuned. Mae mwy o wybodaeth a dolenni i adnoddau allanol gwerthfawr ar wefan TPAS Cymru. Hefyd ceir Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu ar gyfer Cymru sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned gyd-gynhyrchu.

10. Grwpiau Diddordeb Arbennig

Gelwir hefyd yn: Grwpiau Tasg a Gorffen / Grwpiau Creadigol / Grwpiau Cydraddoldeb

Mae amrywiaeth o wahanol fathau o grwpiau diddordeb arbennig. Gallai'r rhain gael eu sefydlu fel grwpiau unwaith ac am byth, neu grŵp denantiaid tymor hwy. Gall grwpiau diddordeb arbennig ganolbwyntio ar feysydd penodol o wasanaethau tai a sut y gellir eu gwella. Yr egwyddor sylfaenol yw casglu tenantiaid at ei gilydd i ganolbwyntio ar agwedd o dai sy'n bwysig iddynt hwy. Gallai hyn fod ar feysydd fel cynnal a chadw ac atgyweirio, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu lety i bobl hŷn.

Nid yw rhai grwpiau tenantiaid yn canolbwyntio yn uniongyrchol ar wella gwasanaethau, ond yn hytrach cânt eu ffurfio ar sail diddordeb cydfuddiannol. Mae'r grwpiau hyn yn aml yn cael eu hadnabod fel grwpiau tenantiaid arweiniol, ac maent yn eang. Enghreifftiau cyffredin o hyn yw grwpiau megis grwpiau garddio, grwpiau gwau a grwpiau crefft. Maent yn gallu bod yn ffordd o gael cipolwg heb eu labelu fel cyfranogiad tenantiaid.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Mae enghreifftiau o'r mathau hyn o grwpiau yn eang (gweler rhai enghreifftiau isod). Bydd y modd y caiff y rhain eu defnyddio yn amrywio, yn dibynnu ar bwrpas ac amcanion y grwpiau.

Grwpiau gwella gwasanaeth:

- Grwpiau Golygyddol
- Grwpiau Amgylcheddol
- Grwpiau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Grwpiau Tasg a Gorffen

Grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth:

- Grwpiau Anabledd
- Grwpiau BME
- Grwpiau LHDT

Grwpiau cymdeithasol:

- Grwpiau Crefft
- Grwpiau Garddio

Manteision

Gall cyfranogiad mewn grŵp diddordeb arbennig, boed hynny er mwyn gwella gwasanaethau neu beidio, fod yn fuddiol iawn i unigolion, y gymuned a'r sefydliad landlord. Mae rhai o'r manteision allweddol yn cynnwys:

- Mae grwpiau diddordeb arbennig yn ffordd wych o gynnal ymgynghoriadau a chael mewnbwn tenantiaid i ymdrin â'r mater sydd o bwys iddynt.
- Maent yn ddewis cost-effeithiol ac yn gymharol hawdd i'w sefydlu. Efallai y bydd rhai grwpiau yn cael eu sefydlu dros dro i ymdrin â mater penodol neu gallant fod yn barhaus.
- Bydd llawer o grwpiau yn rhedeg eu hunain yn gyflym gydag ychydig iawn o ymyrraeth. Mae grwpiau anffurfiol yn arbennig yn fwy hygyrch a chynhwysol i'r boblogaeth ehangach o denantiaid.
- Gall grwpiau tenantiaid helpu ymdrin ag ynysu cymdeithasol a bod yn lle i denantiaid gynnig cymorth cydfuddiannol i'w gilydd, rhannu diddordebau cyffredin a gwneud ffrindiau yn ogystal ag ennill sgiliau pwysig a hyder newydd.
- Mae'r grwpiau'n cynnig lefel o hyblygrwydd nad yw ar gael mewn dulliau eraill megis Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr. Er enghraifft, gall grwpiau hyd yn oed fodoli yn y parth rhithwir ac nid ydynt o reidrwydd yn gorfod cynnwys cyfarfodydd ffurfiol a chyfansoddiadau.

Maent yn ddewis cost-
effeithiol ac yn gymharol
hawdd i'w sefydlu. Efallai y
bydd rhai grwpiau yn cael
eu sefydlu dros dro i ymdrin
â mater penodol neu gallant
fod yn barhaus.

Anfanteision

- Fel gyda dulliau eraill o Gyfranogiad Tenantiaid, mae grwpiau diddordeb arbennig hefyd yn gyfyngedig o ran eu hamrywiaeth ac ni allant bob amser fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o denantiaid.
- I rai grwpiau sydd â llai o ffocws ar wella gwasanaeth a mwy ar yr agwedd gymdeithasol, gellid dadlau nad yw'r grwpiau hyn yn cyfrif fel cyfranogiad tenantiaid gan nad ydynt yn cyfrannu at wella gwasanaethau.

Pwyntiau Ychwanegol i'w Hystyried

- Un o fanteision mawr grwpiau diddordeb arbennig yw y gellir eu rhedeg yn annibynnol gan denantiaid heb lawer o ymyrraeth gan y sefydliad, sy'n gallu rhoi mwy o ymdeimlad o falchder ac ymreolaeth i'r tenantiaid sy'n cymryd rhan.
- Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod anghenion cefnogaeth y grŵp yn cael eu cydnabod a'u bodloni. Er enghraifft, efallai y bydd tenantiaid angen cymorth cychwynnol ar y dechrau i gael y grŵp ar ei draed, a chefnogaeth ysbeidiol wedyn wrth i'r grŵp dyfu a datblygu.
- Mae hefyd yn bwysig bod tenantiaid sy'n cymryd rhan yn derbyn unrhyw hyfforddiant angenrheidiol er mwyn eu helpu i gynnal y grŵp a chreu cynaliadwyedd.
- Gyda'r lefel gywir o gefnogaeth, gall rhedeg a bod yn rhan o grŵp diddordeb arbennig fod yn brofiad grymusol iawn i denantiaid sy'n cyfranogi.

Dysgwch Fwy

Mae TPAS Cymru wedi helpu sefydlu nifer o grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau arweiniol tenantiaid ar draws Cymru. Rydym yn darparu hyfforddiant ar sut y gall y math hwn o gyfranogiad weithio a'i weithredu'n gywir. Canfyddwch fwy ar ein gwefan.



11. Model Cyfaill Beirniadol

Mae'r Model Cyfaill Beirniadol yn ddull her uchel a chefnogaeth uchel i gyfranogi. Mae angen bod yn dryloyw ac yn agored a chydag ymrwymiad gan y landlord a'r tenantiaid i weithio mewn partneriaeth.

Enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei Ddefnyddio

Yn gynwysedig yn y math hwn o fodel, byddai dull Panel Craffu sy'n gweithredu ar lefel strategol, yn aml yn craffu ar benderfyniadau'r Bwrdd ac uwch gyfarwyddwr mewn ffordd adeiladol. Mae craffu yn broses sydd angen casglu gwybodaeth/ tystiolaeth o ffynonellau eraill e.e. Archwilwyr Tenantiaid; mae'r Panel Craffu yn defnyddio data a manylion a roddwyd iddynt yn hytrach na chasglu manylion eu hunain. Mae craffu yn ddull o gynnwys tenantiaid sy'n cael ei gydnabod fel ffordd bwysig i landlordiaid ddangos eu bod yn agored ac yn dryloyw.

Enghraifft arall o'r Model Cyfaill Beirniadol yw Archwilwyr/Arolygwyr Tenantiaid sy'n monitro safon y gwasanaethau a ddarperir gan y landlord. Mae Archwilwyr Tenantiaid yn adrodd am bethau da yn ogystal ag agweddau 'ddim cystal' y gwasanaeth. Eu ffocws yw gweithio gyda'r landlord mewn ffordd adeiladol/ her uchel/ cefnogaeth uchel, drwy wneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth heb enwi unigolion na gosod bai. (Mae rhai Archwilwyr/Arolygwyr yn cael hyfforddiant ychwanegol gan eu landlordiaid i wirio ansawdd y gwaith a wnaed, ond nid yw'r dull hwn o arolygu mor gyffredin, ac mae angen ystyriaethau iechyd a diogelwch ychwanegol)

Siopwyr Dirgel yw tenantiaid sy'n profi ansawdd gwasanaeth rheng flaen trwy, er enghraifft, ymweld/ ffonio/ e-bostio'r brif swyddfa am wybodaeth am agwedd benodol o wasanaeth cwsmeriaid. Enghraifft o hyn fyddai Siopwr Dirgel tenant yn ymweld â'r brif swyddfa/ derbynfa'r Landlord i asesu ei hygyrchedd i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r Model Cyfaill Beirniadol yn ddull her uchel a chefnogaeth uchel i gyfranogi.

Manteision

- Mae gan baneli craffu bŵer a chylch gwaith go iawn.
- Gallant wella safon y gwasanaethau a gynigir i denantiaid er lles pawb.
- Gallant wella a chasglu tystiolaeth o Werth am Arian.
- Gall gweithredu Model Cyfaill Beirniadol helpu meithrin ymddiriedaeth a datblygu'r berthynas rhwng tenantiaid a staff.
- Gall helpu i ddarparu sgiliau, gwybodaeth, cyfleoedd hyfforddi a phrofiad ar gyfer tenantiaid sy'n cymryd rhan yn y prosiectau.
- Gall ychwanegu gwerth gwirioneddol i wella gwasanaethau.

Anfanteision


- Gall gymryd amser i staff/ contractwyr deimlo'n hyderus a chyfforddus gyda'r cysyniad o denantiaid yn cymryd rhan mewn craffu neu arolygu.
- Mae adeiladu dull partneriaeth angen amynedd ac ymrwymiad gan uwch reolwyr a'r bwrdd a gall fod yn broses hir.
- Gellir ei weld gan rai tenantiaid fel ffordd o ddelio â'u materion 'eu hunain' ac felly efallai na fyddant mor wrthrychol ag y dylent fod.
- Gellir ei weld fel ymarfer 'ticio blychau' os nad yw cael ei weithredu'n iawn.
- Mae angen i bob rhanddeiliad brynu i mewn i'r cysyniad o gyd-wneud penderfyniadau wrth weithredu gwelliannau.

Am fwy o wybodaeth gofynnwch wrth TPAS Cymru sut i gael y gorau o'r dull yma.



Mwy O Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth gofynnwch i TPAS Cymru sut y
gall tenantiaid gael y gorau o'r dull gweithredu hwn.



Pwyntiau Allweddol i'w Hystyried wrth Benderfynu ar Fodel

Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid a thenantiaid yn defnyddio cymysgedd o fodelau. Dim ond rhan o'r hafaliad ymgysylltu llwyddiannus yw bod yn ymwybodol o'r gwahanol ddulliau o gyfranogi a'u manteision ac anfanteision. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill sydd angen i landlordiaid (a thenantiaid) eu hystyried.

1. Canlyniadau: mae canlyniadau clir, bwriadedig yn hanfodol i gyfranogi llwyddiannus.

P'un a yw'n ddigwyddiad unigol, grŵp ffocws neu Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr, mae'n hanfodol fod 'pwrpas' yr 'ymgysylltu' yn cael ei gytuno a'i hysbysebu, fel bod y nod cyffredin yn gyfarwydd i bawb.

Mae canlyniadau yn ymwneud â'r hyn sydd wedi newid neu'r 'gwahaniaeth a wnaed' e.e. gwelliannau o ran darparu gwasanaethau; teimladau cynyddol o ysbryd cymunedol; gostyngiad mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ayb. Mae'r canlyniadau'n ansoddol yn hytrach na meintiol, felly, yn hytrach na chanolbwyntio ar y nifer o bobl sy'n mynychu diwrnod hwyl, byddai'r canlyniadau yn canolbwyntio ar y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r diwrnod hwyl e.e. 1.) Bydd tenantiaid sy'n mynychu'r diwrnod hwyl yn dod i adnabod staff sy'n gweithio i'r sefydliad. 2) Bydd y rhwystrau rhwng staff a thenantiaid yn cael eu torri i lawr.

Nid yw cofnodi canlyniadau mor hawdd â chofnodi canlyniadau meintiol e.e. mae 200 o bobl yn bresennol yn y diwrnod hwyl yn hawdd i gofnodi; mae cofnodi p'un a yw cynrychiolwyr yn teimlo eu bod wedi dod i adnabod staff y sefydliad yn fwy anodd, OND mae'n gyraeddadwy. Mae cofnodi a monitro canlyniadau angen paratoi ac wrth gwrs, data sylfaenol. Gellir cael mwy o wybodaeth am ganlyniadau cofnodi a monitro gan TPAS Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid a thenantiaid yn defnyddio cymysgedd o fodelau.

2. Adborth - diffyg adborth yw un rheswm a roddir gan denantiaid am beidio â chymryd rhan bellach.

Yn aml, mae landlordiaid yn anghofio am adborth: pryd bynnag y mae tenantiaid/preswylwyr yn rhoi eu barn, safbwyntiau a sylwadau, mae'n hanfodol bod adborth yn cael ei roi yn ôl iddynt. Nid oes rhaid iddo gael ei roi yn unigol ond mae angen iddo gael ei gynnig mewn amrywiaeth o fformatau sy'n addas i gymaint o bobl â phosibl, i ddangos i'r rhai a gymerodd ran ac i'r boblogaeth ehangach bod landlordiaid yn gwrandao ac yn cymryd sylw o'r hyn a ddywedir.

Mae'n hawdd rhoi adborth pan fyddwch wedi gallu gweithredu neu gynnal awgrymiadau neu ddymuniadau'r tenantiaid. Mae 'Dywedasoch ... felly fe wnaethom' yn ffordd wych o rannu adborth cadarnhaol ond mae'r un mor bwysig rhoi adborth pan nad ydych yn gallu symud ymlaen â'r awgrymiadau a wnaed. Mae 'Dywedasoch ... ond nid ydym yn gallu gwneud hyn oherwydd ...' yn dangos eich bod wedi cymryd sylw o'r hyn a ddywedodd y tenantiaid ond na ellir ei roi ar waith oherwydd materion eraill e.e. diffyg gyllideb, nid yw'n rhan o gylch gwaith/cyfrifoldeb y landlord, neu nad yw'n rhesymol nac yn ymarferol, ayb.

Os ydym eisiau annog tenantiaid i gyfranogi, mae angen eu sicrhau ein bod wedi talu sylw i'r hyn a ddywedwyd, a dangos iddynt beth sydd wedi newid (neu heb newid) o ganlyniad i'w cyfranogiad.

3. Edrych ar ôl tenantiaid - Mae ein tenantiaid yn gwirfoddoli o'u hamser a'u hymdrech i ni ac rydym yn disgwyl llawer oddi wrthynt: mae gofalu amdanynt yn hanfodol.

Mae recriwtio, datblygu a chadw tenantiaid i wirfoddoli mewn CT yn her barhaus i landlordiaid. Mae ymwybyddiaeth o pam mae tenantiaid yn cymryd rhan, neu pam nad ydynt, yn bwysig ac mae'n gallu ein helpu i ddeall sut i ddenu mwy o unigolion i wirfoddoli eu hamser a'u hynni, a thorri i lawr y rhwystrau sy'n atal pobl eraill rhag ymgysylltu.

Yn gyffredinol, wrth ystyried gofalu am wirfoddolwyr tenantiaid, mae angen i landlordiaid feddwl am y canlynol:

- Cynllunio - Nodau ac amcanion. Pwrpas cynnwys gwirfoddolwyr?
- Recriwtio - Hyrwyddo, rôl a chyfrifoldebau, hysbysebu.
- Sefydlu - Iechyd a Diogelwch, cod ymddygiad, polisïau a gweithdrefnau.
- Hyfforddiant a datblygiad - Archwiliad sgiliau, cefnogaeth a goruchwyliaeth reolaidd.
- Adolygu - Llwyddiannau, monitro a gwerthuso prosiectau.

4. Cefnogaeth i staff

Mae staff rheng flaen yn adnodd ardderchog i godi ymwybyddiaeth o Gyfranogiad Tenantiaid o fewn y sefydliad. Gallant dynnu sylw at ei fanteision, canlyniadau a'r gwahanol ddulliau o gyfranogiad sydd ar gael i denantiaid. Fodd bynnag, er mwyn iddynt fod yn hyderus yn gwneud hyn, mae angen iddynt fod yn glir ynghylch manteision Cyfranogiad Tenantiaid a bod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gall tenantiaid gyfranogi yn eu sefydliad.

Un opsiwn yw sicrhau bod yr holl sesiynau sefydlu ar gyfer staff newydd yn cynnwys Cyflwyniad i CT. Bydd hyn yn galluogi staff i ddeall pwysigrwydd cyfranogiad tenantiaid a'r canlyniadau a gyflawnir gan y sefydliad o ganlyniad i weithgareddau cyfranogi. Bydd y cipolwg hwn yn helpu staff i hyrwyddo CT i'r tenantiaid y maent yn delio â hwy o ddydd i ddydd. Mae'n gyfle i annog cyfathrebu a dealltwriaeth o'r cyfleoedd i denantiaid gyfranogi mewn gwella gwasanaethau mewn ffordd ragweithiol a chadarnhaol. Mae hyfforddiant CT parhaus i staff yn enghraifft o sut y gall buddsoddiad arwain at fuddiannau Gwerth am Arian yn y tymor hwy.

5. Siaradwch â TPAS Cymru

Mae gennym gyfoeth o brofiad ac rydym bob amser yn edrych ar ddulliau gwahanol, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Rydym hefyd yn cadw llygad ar ddatblygiadau yn Ewrop ac ar ddulliau eraill a ddefnyddir ar draws y byd.

Gallwn eich helpu ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas y gwahanol ddulliau a rhoi astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau i'ch helpu i osgoi peryglon a brofwyd gan eraill. Rydym yn ymroddedig i Gyfranogiad Tenantiaid llwyddiannus yng Nghymru. Nid ydym yn annog unrhyw ddull unigol, ond yn credu mewn cael yr ateb cywir a phriodol i bob cymuned unigol.

Eich tro chi... 4 cwestiwn i ofyn i'ch hun!

1. Ydych chi'n adnabod pa fodel cyfranogiad yr ydych yn cymryd rhan ynddo?
2. A ydych yn deall manteision / cyfyngiadau y model yr ydych yn ei ddefnyddio?
3. A ydych yn gweld y fantais o fabwysiadu modelau eraill?
4. Ydych chi eisiau cymorth neu gyngor gan TPAS Cymru?

Manylion Cyswllt

Swyddfa De Cymru

Adeilad Unite
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SD

Ffôn: 02920 237303

E-bost: enquiries@tpas.cymru

Gwefan: www.tpas.cymru


Cyfryngau Cymdeithasol: Gellir dod o hyd i ni ar Twitter, Facebook,
Linkedin ac Instagram

Swyddfa Gogledd Cymru

77 Ffordd Conwy
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7LN

Ffôn: 01492 593046

E-bost: enquiries@tpas.cymru



Noddwyr Arweiniol



Arddangoswyr Arweiniol



Hoffai TPAS Cymru ddiolch i'r rhai hynny yn y sector tai a gymerodd amser i adolygu a rhoi eu sylwadau yn ystod y cyfnod golygu. Hoffem hefyd ddiolch i ITPie a Caffeine Creative am eu gwaith dylunio wrth ddod â'r ddogfen hon yn fyw.